**Dylunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru**

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023 cynhaliodd Comisiwn Dylunio Cymru ail gam yr ymgynghoriad ar y ddogfen ganllaw ddrafft Dylunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys drafft o’r canllaw newydd, holiadur a gwahoddiadau i roi sylwadau drwy wefan y Comisiwn Dylunio a ffrydiau cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy e-bost uniongyrchol. Cysylltwyd â rhanddeiliaid allweddol, cyrff cyhoeddus, cyrff anllywodraethol, Aelodau o’r Senedd ac ymatebwyr blaenorol.

Cafodd y Comisiwn Dylunio 30 o ymatebion i’r ymgynghoriad. Roedd yr ymatebion gan chwe busnes; naw aelod o’r cyhoedd; tri chorff proffesiynol; dau gorff statudol; un corff anstatudol; pedwar awdurdod lleol; un awdurdod parc cenedlaethol; un cyngor tref; a thri grŵp cymunedol.

Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â’r egwyddor o adeiladu ffermydd gwynt ar y tir a ffermydd solar ar raddfa fawr yng Nghymru. Roedd pryder am effaith datblygiadau o’r fath ar y dirwedd, yn ogystal ag effeithiau eraill fel colli bioamrywiaeth. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid canolbwyntio mwy ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy eraill, yn enwedig ynni gwynt ar y môr ac ynni’r llanw. Mae’r sylwadau hyn yn fater polisi a’r tu allan i gwmpas y prosiect hwn.

Nid dogfen bolisi yw’r cyhoeddiad hwn. Mae’r ddogfen yn darparu canllawiau sy’n ymwneud â pholisi cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru a Cymru’r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae’r canllaw wedi cael ei ddatblygu’n benodol i gefnogi Polisïau 17 a 18 Cymru’r Dyfodol.

Roedd rhai ymatebwyr eisiau rhagor o fanylion am wahanol faterion sy’n ymwneud â datblygu ynni adnewyddadwy gan gynnig awgrymiadau am wybodaeth ychwanegol y gellid ei chynnwys. Mae’r Comisiwn Dylunio yn gwerthfawrogi’r

mewnbwn adeiladol hwn ac mae wedi gwneud newidiadau i adlewyrchu rhywfaint o’r adborth hwn. Ni chafodd pob awgrym ei gynnwys gan mai’r bwriad yw bod y canllaw yn hygyrch i nifer o gynulleidfaoedd. Mae’r ddogfen yn darparu canllawiau:

- y gall Gweinidogion Cymru, Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru ac Awdurdodau Lleol eu defnyddio yn eu rôl i adolygu, dylanwadu a phenderfynu ar ddatblygiadau gwynt a solar;
- y gall datblygwyr (preifat a chymunedol) eu defnyddio’n gynnar yn y broses i ganfod a mynd i’r afael â phroblemau posibl;
- y gall rhanddeiliaid, ymgyngoreion a mentrau cymunedol eu defnyddio; ac
- y gall y rheini sy’n rhan o’r broses gynllunio am y tro cyntaf eu defnyddio i ddeall yn well y materion allweddol y dylai cynigion datblygiadau gwynt a solar mawr eu hystyried, y broses gydsynio, a ffynonellau ehangach o wybodaeth ddefnyddiol.

Mae’r ymatebion i’r ymgynghoriad wedi cyfrannu at fireinio’r canllaw Dylunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru. Un newid allweddol oedd atgyfnerthu’r pwysigrwydd bod tirlunio yn arwain y broses ddylunio. Mae’r canllaw hefyd wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys newidiadau diweddar i Bolisi Cynllunio Cymru ar fioamrywiaeth a chadernid ecosystemau.